# Adroddiad Arolygu ar gyfer

**Cartref Preswyl Dolwar**

Cartref Preswyl Dolwar
**LLANBEDROG**
**PWLLHELI**
**LL53 7PA**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

23/06/2021

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2021.***
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Cartref Preswyl Dowlar

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gwasanaeth Cartref Gofal<br>Gofal Heb Nyrsio i Oedolion |
| Darparwr Cofrestredig | WILLIAMS AND JONES |
| Lleoedd cofrestredig | 17 |
| Iaith y gwasanaeth | Y ddwy |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | Nodi â Llaw<br>28 Tachwedd 2018. |
| A yw’r gwasanaeth hwn yn darparu’r Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg? | Ydy |

## Crynodeb

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

Mae'r unigolyn cyfrifol a darparwr y gwasanaeth wedi'u cofrestru ag Arolygiaeth Gofal Cymru. Mae rheolwr y gwasanaeth hefyd wedi'i gofrestru â Gofal Cymdeithasol Cymru.

Mae'r cartref wedi ymdopi'n dda yn ystod pandemig COVID-19. Mae'r staff yn teimlo eu bod yn cael eu hyfforddi a'u cefnogi'n dda. Mae digon o gyfarpar diogelu personol (PPE) ar gael i'r staff ofalu am y bobl yn ddiogel, gan ddiogelu eu hunain hefyd.

Mae'r bobl wedi cael eu galluogi i gadw mewn cysylltiad â theulu a ffrindiau drwy gydol y pandemig. Mae cynlluniau personol y bobl yn canolbwyntio ar eu hoff bethau a'u hanghenion unigol. Mae'r bobl yn cael gofal gan staff sy'n gyfarwydd iddynt, ac sy'n ymwybodol o'u hanghenion. Mae gan y bobl lais, a gallant ddylanwadu ar y gofal a roddir iddynt. Cynhelir archwiliadau o'r gwasanaeth bob chwarter er mwyn sicrhau bod y bobl yn cael gofal o ansawdd da. Mae glendid y cartref yn dda. Dywedodd y bobl wrthym eu bod yn hapus iawn yn y cartref, a'u bod yn teimlo eu bod yn cael gofal da.

## Llesiant

Mae'r gwasanaeth yn sicrhau bod hawliau a hawliadau'r bobl yn cael eu diogelu. Caiff hoff bethau, cas bethau ac anghenion y bobl eu dogfennau, a chaiff canlyniadau eu cofnodi bob dydd. Gall y bobl ddewis sut i dreulio eu diwrnod ac maent yn cael dewisiadau dyddiol, megis sut i dreulio eu diwrnod, pryd i godi a mynd i'r gwely, a beth yr hoffent ei fwyta. Clywsom fod y staff yn siarad â'r bobl yn Gymraeg ac yn Saesneg fel y bo'n briodol, ac yn parchu dewisiadau iaith gyntaf y preswylwyr. Caiff dewisiadau iaith gyntaf y bobl eu nodi yn eu cynlluniau personol hefyd. Dywedodd y preswylwyr wrthym eu bod yn teimlo eu bod yn cael gofal da, gan ddisgrifio'r gwasanaeth yn gartrefol.

Mae'r cartref yn gofalu am iechyd corfforol, emosiynol a meddyliol y bobl. Mae Uwch-ymarferydd Nyrsio sy'n gweithio gyda'r meddyg teulu lleol yn adolygu'r bobl bob wythnos. Caiff adolygiadau gan y meddyg teulu eu dogfennu'n ofalus yng nghynlluniau personol y bobl hefyd. Gwelsom fod iechyd y bobl yn cael ei fonitro'n agos, gyda'r staff yn monitro pwysau'r preswylwyr bob mis ac yn cofnodi eu cymeriant bwyd a hylif fel y bo'n briodol. Gwneir atgyfeiriadau at weithwyr gofal iechyd proffesiynol mewn modd amserol a phriodol. Mae'r staff gofal yn dogfennu llesiant emosiynol y bobl, ac yn eu helpu i gadw mewn cysylltiad â theulu a ffrindiau. Mae'r bobl yn cael cyfle i gymdeithasu bob dydd. Gall y bobl ymarfer eu credoau crefyddol ac ysbrydol.

Mae'r preswylwyr yn cael eu diogelu rhag camdriniaeth ac esgeulustod. Gwelsom fod Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid (DoLS) ar gyfer y bobl yn cael eu cymhwyso a'u hasesu'n briodol. Caiff y dogfennau DoLS eu hadolygu fel y bo'n briodol. Gwneir atgyfeiriadau diogelu mewn modd amserol, ynghyd â hysbysiadau i AGC. Mae'r staff gofal yn cael hyfforddiant mewn perthynas â DoLS a diogelu pobl. Mae'r gwasanaeth yn gweithio'n dda gydag awdurdodau lleol, ac mae'n agored ac yn dryloyw yn ei drafodaethau.

Gall y bobl gynnal cydberthnasau ac aros mor egnïol â phosibl. Gall teulu a ffrindiau ymweld drwy drefnu apwyntiad pan fydd yn ddiogel iddynt wneud hynny o ran lefelau COVID-19 lleol. Ceir ardaloedd diogel ar gyfer ymweld yn yr heulfan, gyda sgrin symudol rhyngddynt er mwyn sicrhau trefniadau rheoli heintiau da. Gall y bobl ffonio eu teulu a ffrindiau, a gallant ddefnyddio “FaceTime” ar ddyfeisiau technoleg gwybodaeth. Mae gweithgareddau wedi'u trefnu, megis bingo, canu a phosau, ar gael i'r bobl. Gwelsom fod y bobl yn sgwrsio â'i gilydd, yn gwylio'r teledu ac yn darllen papurau newydd. Yn dibynnu ar lefelau COVID-19 lleol, caiff y bobl ymweld â thraethau caffis a siopau lleol.

Mae'r amgylchedd yn addas ar gyfer anghenion y bobl. Gwelsom fod y cartref yn lân ac yn daclus. Dywedodd y bobl wrthym eu bod yn fodlon ar eu hystafelloedd gwely ac y gallant gael eu heitemau personol o'u cwmpas. Gwelsom fod ystafelloedd y bobl yn cydymffurfio â'r rheoliadau, a bod gan y bobl gyfarpar priodol ar gyfer eu hanghenion gofal. Mae gan y cartref sgôr hylendid amgylchedd o 5, sy'n dda iawn.

## Gofal a Chymorth

Darperir gofal o ansawdd da i'r bobl. Mae'r unigolyn cyfrifol yn cynnal archwiliadau o'r gwasanaeth, ansawdd y gofal, a barn y preswylwyr, eu teulu a'r staff mewn perthynas â'r gwasanaeth, a chaiff ystyriaethau amgylcheddol eu hadlewyrchu yn ei adroddiad chwarterol. Mae'r gwasanaeth yn gweithio'n agos gyda'r awdurdodau lleol sydd hefyd yn monitro ansawdd y gofal a ddarperir. Gall y preswylwyr ddylanwadu ar y gwasanaeth a roddir iddynt. Mae'r staff gofal yn gweithio gyda'r preswylwyr mewn perthynas â'u cynlluniau personol. Mae cynlluniau personol y bobl yn adlewyrchu eu hanes personol, eu dyheadau a'u canlyniadau. Gall y bobl gael gofal gan y nyrs ardal hefyd er mwyn sicrhau bod eu hanghenion clinigol yn cael eu diwallu. Caiff preswylwyr sydd â gofynion arbenigol eu hatgyfeirio at weithwyr gofal iechyd proffesiynol mewn modd priodol ac amserol.

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

Mae'r gwasanaeth yn ystyriol o arferion rheoli heintiau a hylendid da. Mae'r staff gofal yn gwisgo PPE ac yn diheintio eu dwylo. Mae'n rhaid i ymwelwyr â'r cartref gael Prawf Llif Unffordd a dangos canlyniad negatif cyn cael mynediad. Cymerir tymereddau'r ymwelwyr, a rhaid iddynt wisgo mwgwd a diheintio eu dwylo. Mae'r staff gofal wedi cael hyfforddiant ar COVID-19, a sut i ddefnyddio PPE i'w galluogi i ofalu am y bobl yn ddiogel. Mae gan y cartref brotocolau COVID-19 a pholisi sydd ar gael i'r staff gofal.

## Yr Amgylchedd

Mae'r darparwr yn sicrhau bod gofal yn cael ei roi mewn amgylchedd sy'n addas i anghenion gofal y bobl. Cynhelir asesiadau iechyd a diogelwch mewn perthynas â'r gwasanaeth, ac mae'r rhain ar gael yn rhwydd i'r staff ac yn cael eu diweddaru fel y bo'n briodol. Caiff y cyfarpar tân ei wasanaethu a chynhelir profion ar y larymau a'r goleuadau argyfwng bob wythnos. Gwelsom fod y staff wedi cael dyddiadau ar gyfer hyfforddiant ar ddiogelwch tân. Mae gan y cartref swyddog cadw tŷ dynodedig; mae'r cartref yn lân, yn daclus ac yn drefnus. Cynhelir profion diogelwch ar y cyfarpar trydanol bob blwyddyn. Gwasanaethir cyfarpar hanfodol, megis y lifft a matresi aer ar gyfer gwelyau'r bobl, yn unol ag argymhellion y gwneuthurwr er mwyn sicrhau canlyniadau da i'r bobl. Dywedodd y bobl wrthym eu bod yn fodlon ar lendid y cartref a'u bod yn teimlo'n ddiogel yno.

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

## Arwain a Rheoli

Mae trefniadau llywodraethu digonol ar waith. Mae hyn yn amlwg o'r ffaith bod y gwasanaeth yn rhedeg yn ddidrafferth. Mae'r bobl yn fodlon ar y gofal a roddir, ac yn teimlo eu bod yn gallu cyflawni eu canlyniadau personol. Mae'r unigolyn cyfrifol yn bresennol bobl dydd, ac yn weladwy i'r preswylwyr a'r staff. Mae'r Datganiad o Ddiben yn cynnwys strwythur staffio, a gaiff ei esbonio i'r bobl.

Mae digon o staff ar gael i ofalu am y bobl yn ddiogel. Gwelsom hyn o'r rotas staff a thrwy arsylwi ar y staff a oedd ar gael i roi gofal yn ystod yr ymweliad arolygu. Gwelsom fod gwiriadau priodol ar waith i sicrhau bod y gwasanaeth yn recriwtio staff priodol i ofalu am oedolion agored i niwed. Mae'r gwasanaeth yn cydymffurfio â'r gofyniad i gynnal adolygiadau blynyddol a sesiynau goruchwylio chwarterol ar gyfer y staff a'r rheolwyr gofal. Gwelsom fod y dogfennau hyfforddiant yn dangos bod y staff yn parhau i gael eu hyfforddi ar raglen dreigl o e-ddysgu a bod rhywfaint o hyfforddiant yn cael ei gwblhau drwy'r cyngor lleol. Mae hyn yn sicrhau bod y bobl yn cael gofal gan staff sy'n ddigon medrus a gwybodus.

Mae'r unigolyn cyfrifol yn goruchwylio'r gwasanaeth ac yn hyderus o ran ei sefyllfa ariannol. Gwelsom fod y cartref wedi'i addurno'n fodern ac yn cynnwys dodrefn modern. Mae'r bobl yn cael bwyd o ansawdd da, sy'n cael ei baratoi'n ffres ar y safle. Mae'r bobl yn cael cyfarpar priodol ar gyfer eu hanghenion gofal. Mae digon o staff gofal ar gael i ofalu am y bobl yn ddiogel. Dywedodd y staff gofal wrthym eu bod yn cael digon o gymorth a hyfforddiant.

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

| Y meysydd i'w gwella a'r camau a nodwyd yn yr arolygiad blaenorol neu ers hynny. Wedi'i gyflawni |
|---|

| Y meysydd i'w gwella a'r camau a nodwyd yn yr arolygiad blaenorol neu ers hynny. Heb ei gyflawni | |
|---|---|
| Dim | |

| Meysydd lle y mae angen gweithredu â blaenoriaeth | |
|---|---|
| Dim | |

| Meysydd lle y mae angen gwneud gwelliannau | |
|---|---|
| Dim | |

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

**Dyddiad Cyhoeddi** 16/08/2021

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi